Oliver Cromwell 1599–1658

Arglwydd Amddiffynnydd Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon

Ganwyd Oliver Cromwell ar 25 Ebrill 1599 yn Huntingdon yn fab i Robert ac Elisabeth. Cymro o Forgannwg oedd ei hen daid Morgan Williams a aeth i gadw tŷ tafarn a bragdy yn Putney. Priododd ef chwaer hynaf Thomas Cromwell, gweinidog Harri VIII, a thrwyddo ef fe ymgyfoethogodd y teulu. Cawsant afael ar diroedd rhai o'r mynachlogydd a ddiddymwyd gan Harri VIII ym 1538-9 a daeth peth o'r etifeddiaeth i ddwylo tad Oliver Cromwell. Adeiladodd ei dad dŷ hardd ar gyrion Huntingdon lle y byddai'n gyson yn croesawu'r Brenin Iago. Ychydig a wyddom am Cromwell yn ystod deugain mlynedd gyntaf ei fywyd. Pe bai wedi marw yn ddeugain ni fyddai unrhyw sôn amdano mewn llyfrau hanes. Aeth i'r ysgol ramadeg leol ac yna i Goleg Sidney Sussex yng Nghaergrawnt ym 1616–17. Ym 1620 priododd Elizabeth Bourchier, merch ifanc oedd o deulu eithriadol o gefnog yn Essex. Daeth hyn ag ef i gysylltiad â llawer o deuluoedd bonheddig a dylanwadol.

Cafodd Cromwell dröedigaeth. Daeth yn Biwritan o argyhoeddiad a dechreuodd bregethu'n gyson mewn cyfarfodydd crefyddol anghyfreithlon. Ni allai oddef aros yn yr eglwys Anglicanaidd oherwydd bod cymaint o ddefodau Pabyddol ynddi. Dyheai am Gristnogaeth symlach a llai seremonïol. Cafodd ei ethol yn aelod seneddol Caergrawnt ym 1640. Roedd yn AS ymfflamychol ac yr oedd yn amlwg iawn yn y senedd. Galwai am ddiwygio'r eglwys Anglicanaidd ac am ddiddymu esgobion.

Ym 1642, adeg y Rhyfel Cartref yn Lloegr, anfonwyd ef gan y senedd i atal rhai o filwyr y brenin yng Nghaergrawnt a gwnaeth hynny yn effeithiol. Yn ystod y blynyddoedd dilynol bu'n filwr a byddai'n cael ei ddyrchafu yn gyson oherwydd ei ddoniau fel arweinydd hyd nes iddo gael ei benodi yn is-gadfridog y New Model Army o 1645 i 1649. Trefnodd lawer o gyrchoedd yn erbyn milwyr y brenin. Ei gryfder mawr oedd nid ei strategaethau na gwreiddioldeb milwrol ond ei allu i ysbrydoli milwyr. Roedd ei fyddin yn effeithiol wrth goncro ac yn gwbl

ddigymrodedd wrth ymladd. Ym 1648 daethant i dde Cymru gan chwalu cefnogwyr y brenin. Y flwyddyn ddilynol fe aeth trosodd i Iwerddon gan ddangos ffyrnigrwydd a chreulondeb mawr. Lladdwyd pob swyddog yn y fyddin, offeiriad a mynach Pabyddol ac yn Wexford bu cyflafan erchyll. Yn y diwedd cymerwyd cymaint â 40% o diroedd Iwerddon oddi ar Gatholigion Gwyddelig a'u rhoi i Brotestaniaid o Brydain. Yn dilyn hyn bu problemau enbyd yn Iwerddon. Ym 1650 aeth Cromwell i'r Alban gan goncro byddinoedd y brenin a meddiannu'r iseldir. Dychwelodd yn fuddugoliaethus i Lundain ym 1651. Ym 1653 diddymodd y Senedd yn Llundain gan benodi 140 o ddynion 'duwiol' i lywodraethu gydag egwyddorion Cristnogol; gelwid hwy yn Senedd y Saint. Byrhoedlog fu'r arbrawf ac wedi dim ond pum mis rhoddwyd y grym yn ôl i Cromwell ac fe'i penodwyd yn Arglwydd Amddiffynnydd.

Roedd yn gymeriad cymhleth oherwydd ar un llaw roedd yn greulon a digyfaddawd ac ar y llaw arall yn eangfrydig. Rhoddwyd rhyddid crefyddol i Babyddion ac Iddewon i addoli yn breifat yn ôl eu cydwybod. Hefyd nid oedd aelodaeth o'r eglwys wladol yn amod mynediad i goleg na swydd gyhoeddus. Yn annisgwyl roedd y cyfnod hwn yn un o ryddid crefyddol anarferol. Ceisiodd ei ddilynwyr ei wneud yn frenin ond gwrthododd y cynnig. Dirywiodd ei iechyd yn frawychus o sydyn. Bu farw ar 3 Medi 1658 a chladdwyd ei gorff yn Abaty Westminster.